Adroddiad i'r Cyngor Sir

Dyddiad y Cyfarfod 25 Chwefror 2020

Aelod / Swyddog Arweiniol Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill / Steve Gadd, Pennaeth Cyllid ac Eiddo

Awdur yr adroddiad Steve Gadd, Pennaeth Cyllid ac Eiddo

Teitl Treth y Cyngor 20/21 a Materion Cysylltiedig

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Wrth fabwysiadu penderfyniadau cyfarfod cyllideb y Cyngor ar 28 Ionawr 2020, mae angen i'r Cyngor wneud penderfyniadau ychwanegol mewn ffurf benodol i sicrhau bod Treth y Cyngor a'i materion cysylltiedig yn gyfreithiol ddilys.

2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

Mae angen penderfyniad i osod lefelau Treth y Cyngor ar gyfer 2020/21.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Mae'n ofynnol i'r Cyngor Sir, fel yr Awdurdod Bilio, ystyried y praeseptau a dderbyniwyd gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a'r Cynghorau Tref/Cymuned a chyhoeddi lefelau Treth y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21.

3.2. Argymhellir bod y symiau a gyfrifwyd gan y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21, yn unol ag Adrannau 32 i 34 (1) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (y Ddeddf) a'r Rheoliadau Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol (Cymru) 2008 fel ag y maent yn adran 3 Atodiad A.

3.3. Argymhellir bod y symiau a gyfrifwyd gan y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21, yn unol ag Adrannau 34 (2) i 36 (1) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (y Ddeddf) fel ag y maent yn adran 4 Atodiad A.

3.4. Bod symiau Treth y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21 ar gyfer pob un o'r categorïau o anheddau fel y'u cyflwynir yn Atodiad C.

3.5. Bod lefel y gostyngiad ar gyfer Dosbarth A, B a C fel y nodir yn Rheoliadau Treth y Cyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 2004 yn cael ei gosod ar sero ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21 gyda'r cafeat bod hyn yn ddibynnol ar ddim newidiadau i ddeddfwriaeth nac amodau lleol.

4. Manylion yr Adroddiad

Oherwydd bod angen cymeradwyo'r penderfyniad a'r argymhellion yn y modd a bennwyd, mae Atodiad A yn cynnwys manylion yr adroddiad.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Os nad yw'r argymhellion yn cael eu cymeradwyo, ni fydd yr Awdurdod yn gallu codi biliau Treth y Cyngor, felly ni fydd incwm sydd ei angen i ariannu Blaenoriaethau Corfforaethol ar gael.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae'r gost o godi a dosbarthu gofynion Treth y Cyngor yn cael ei diwallu o fewn adnoddau presennol.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

Cwblhawyd asesiad lles ar gyfer y cynnydd yn Nhreth y Cyngor fel rhan o'r broses cyllideb ac roedd yn ffurfio rhan o bapurau'r gyllideb a gyflwynwyd i'r Cyngor Llawn ar 28 Ionawr 2020.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Mae lefel Treth y Cyngor yn ffurfio rhan o'r gyllideb a bennwyd gan y Cyngor. Yn ogystal â'r adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, mae proses y gyllideb wedi'i hystyried gan gyfarfodydd y Tîm Gweithredol Corfforaethol, yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Briffio'r Cabinet a Briffio'r Cyngor. Mae'r Fforwm Cyllideb Ysgol wedi'i gynnwys yn y cynigion drwy'r flwyddyn. Ymgynghorwyd ag Undebau Llafur drwy'r Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol. Yn ogystal â hynny, ymgysylltwyd â'r cyhoedd drwy'r

cyfryngau cymdeithasol eleni. Mae'r cynigion yn yr adroddiad hwn wedi cael eu hystyried gan y Cabinet ac fe gymeradwywyd y gyllideb gan y Cyngor Llawn ar 28 Ionawr 2020.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar y Cyngor i osod Treth y Cyngor. Mae'r rheoliadau'n rhagnodol ynghylch sut y dylid gwneud hyn ac mae'r adroddiad hwn yn bodloni'r gofynion hynny.

10. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Risg ariannol o fethu â chasglu incwm Treth y Cyngor. Mae cyfraddau casglu'n uchel ac yn cael eu monitro'n agos drwy gydol y flwyddyn.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a Rheoliadau Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol (Cymru) 2008.